Dyddiad cyflwyno: 17 Hydref 2017

Adroddiad Cyngor Cymuned Mawr

Ysgrifennaf i ymateb i'ch cais isod dyddiedig 15 Hydref i ofyn am wybodaeth ynghylch Adroddiad Archwiliad Cyngor Cymuned Mawr.

Gan fod y rhan hon o'ch e-bost yn gofyn am wybodaeth a gofnodwyd, cafodd ei hystyried yn unol â'r gweithdrefnau a nodir ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru: http://www.audit.wales/cy/sefydliad-agored-thryloyw/polisi-gwybodaeth sydd â'r bwriad o sicrhau yr ymdrinnir â cheisiadau yn unol â Deddf Diogelu Data 1998, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, y Cod Ymarfer a osodir o dan adran 45 o Ddeddf 2000 a deddfwriaethau perthnasol eraill.

Er mwyn hwylustod rwyf wedi copïo eich cwestiwn isod a nodi ein hateb cyfatebol.

Mae rhai ohonom ni drigolion wedi cael ar ddeall fod yr Adroddiad Archwilio diweddaraf wedi ei gyhoeddi. Os felly, a gawn ni gopi? A yw ar gael ar y rhyngrwyd? Os felly, a wnewch chi anfon 'dolen i'r we' ataf os gwelwch yn dda?
Mae gwybodaeth am Adroddiad Archwiliad Cyngor Cymuned Mawr ar gael ar wefan Cyngor Cymuned Mawr: http://www.mawrcommunitycouncil.org.uk/Accounts_9666.aspx
Felly o ganlyniad mae'r wybodaeth hon yn weddol hygyrch ichi drwy ffyrdd eraill ac wedi'i heithrio o gael ei datgelu o dan adran 21 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Os hoffech gwyno am y modd yr ymdriniwyd â'ch cais, ysgrifennwch at Martin Peters, Rheolwr Moeseg a'r Gyfraith, drwy e-bost: martin.peters@audit.wales neu drwy lythyr i 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

Mae'n rhaid i mi hefyd eich cyfeirio at adran 50 Deddf Rhyddid Gwybodaeth. O dan hon cewch wneud cais i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad ynghylch pa un a ymdriniwyd â'ch cais yn unol â'r ddeddf ai peidio. Dyma fanylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
e-bost : casework@ico.gsi.gov.uk
Ffôn: 01625 545745
Ffacs: 01625 524510

Nodwch er hynny y byddai'r Comisiynydd Gwybodaeth fel arfer yn disgwyl y byddech chi wedi defnyddio ein gweithdrefnau cwynion mewnol yn drylwyr cyn iddo ymdrin â chais o'r fath. Ceir rhagor o gyngor ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: https://ico.org.uk/about-the-ico/other-languages/welsh/

Os oes gennych unrhyw gwestiwn, cysylltwch â mi yn ddi-oed.

Yn gywir